# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION DYDD MAWRTH, 6 RHAGFYR 2016

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Dyfed Edwards, Trevor Edwards, Selwyn Griffiths, Peredur Jenkins, Eric M. Jones, Michael Sol Owen, W Gareth Roberts, Angela Russell, Dyfrig Siencyn a R.H. Wyn Williams

**Eraill a wahoddwyd**: Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Rheoleiddio)

**Hefyd yn Bresennol:** Dilwyn O Williams (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Stephen Churchman, Jean Forsyth, Brian Jones a John Wyn Williams

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20.10.16 fel rhai cywir

## 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny**

**hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

## 6. CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO

Penderfyniad y Pwyllgor yn eu cyfarfod ar Hydref 20fed 2016 oedd rhoi pedwar ymgeisydd ymlaen ar gyfer y ganolfan asesu.

Cadarnhawyd trefn y cyfweliadau gyda'r Aelodau.

Cyfwelwyd pedwar ymgeisydd ar gyfer y swydd.

Gwahoddwyd Mr Arwyn Reynolds, Ymgynghorydd annibynnol o gwmni PCS Associates i gyflwyno sylwadau o'r Ganolfan Asesu a gynhaliwyd 23.11.16. Derbyniwyd crynodeb manwl o berfformiadau'r pedwar ymgeisydd gan ymhelaethu ar eu cryfderau a'u cyfyngiadau.

Diolchwyd i Mr Reynolds am ei sylwadau.

**PENDERFYNWYD PENODI MR DAFYDD WYN WILLIAMS I'R SWYDD PENNAETH RHEOLEIDDIO**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30 y.h. a daeth i ben am 5.00 y.h.

**CADEIRYDD**